# Cyngor Dinas Casnewydd Strategaeth Drafft 5 Mlynedd yr Iaith Gymraeg 2017-2022

## Gweledigaeth Casnewydd ar gyfer yr Iaith Gymraeg

**Cyngor Dinas Casnewydd**

# Strategaeth 5 mlynedd yr Iaith Gymraeg Cyngor Dinas Casnewydd

## 2017-2022

Mae'r Cyngor yn ymgynghori ar y Strategaeth Iaith Gymraeg 5 mlynedd hon i Gasnewydd sy'n nodi sut y bwriadwn 'hyrwyddo'r Gymraeg a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg'.

Yn y Strategaeth hon, rydym yn nodi'r canlynol:

- Y Gymraeg yng Nghasnewydd,
- Gweledigaeth ar gyfer y Gymraeg yng Nghasnewydd,
- Targed 5 mlynedd ar gyfer cynyddu neu gynnal canran y siaradwyr Cymraeg,
- Amcanion a chamau gweithredu ar gyfer y cyfnod o 5 mlynedd - er mwyn cyflawni'r amcanion a chyfrannu at y targed.

DRAFT

## Cynnwys


Cyflwyniad ..... 3
Gweledigaeth ddrafft ar gyfer y Gymraeg yng Nghasnewydd ..... 4
Targed 5 mlynedd arfaethedig ar gyfer cynyddu canran y siaradwyr Cymraeg ..... 4
Themâu ac Amcanion ar gyfer y Gymraeg ..... 5
Yr laith Gymraeg ..... 6
Faint o siaradwyr Cymraeg sydd yng Nghymru? ..... 6
Faint o siaradwyr Cymraeg sydd yng Nghasnewydd? ..... 6
Sut i fesur nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghasnewydd ..... 9
Targed Arfaethedig ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghasnewydd ..... 10
Yr iaith Gymraeg yng nghymunedau Casnewydd ..... 11
1 Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghasnewydd ..... 11
2 Swyddi lleol yng Nghasnewydd, tai, polisi'r cyngor a chynllunio'r gweithlu ..... 13
3 Hyrwyddo'r Gymraeg ym mhob rhan o fywyd ..... 15
Themâu ac Amcanion –meysydd gwaith adfaethedig ..... 17
Ymgysylltu ..... 19
Llywodraethu ..... 19
Gweithredu ac Adolygu ..... 19
Gwerthuso ..... 19


DRAFT

## Cyflwyniad

Cyfrifoldeb Cyngor Dinas Casnewydd yw'r strategaeth hon, ond mae llawer o sefydliadau a phobl eraill yn weithgar wrth ddefnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg yng Nghasnewydd a'n rôl ni yw tynnu'r holl ymdrechion hyn ynghyd er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i bobl Casnewydd. Mae gweithio gyda pobl yn allweddol i lwyddiant y strategaeth hon, o ran llunio gweledigaeth ar gyfer y Gymraeg i Gasnewydd ac o ran rhoi'r weledigaeth honno ar waith.

Mae hyrwyddo'r Gymraeg yn nod hirdymor. Byddwn yn pennu targed 5 mlynedd megis cynyddu nifer y plant sy'n dilyn addysg Gymraeg, ond ni chaiff rhai o'r nodau tymor hwy sy'n gysylltiedig â chynnig mwy o gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg drwy gydol eu bywydau eu gwireddu yn ystod y cyfnod 5 mlynedd nesaf yn unig.

Nid dim ond cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghasnewydd yw nod y strategaeth hon. Mae a wnelo'r strategaeth hon ag ysbrydoli a chefnogi dysgwyr Cymraeg a phawb sy'n siarad Cymraeg mewn rhyw ffordd, o'r rheini sy'n gallu dweud 'bore da' i'r rheini sy'n feirdd Cymraeg. Rydym yn awyddus i feithrin hunaniaeth i Gasnewydd sy'n caru'r Gymraeg.

Mae a wnelo Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n nodi mai datblygu cynaliadwy yw'r brif egwyddor drefniadol ym maes bywyd cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn cynnwys 7 nod llesiant, ac un o'r nodau hynny yw 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'. Mae hyn yn golygu bod dyletswydd eisoes ar y cyngor i gyflawni'r nod honno yn yr hirdymor, fel un o'r camau ar gyfer creu'r Gymru rydym yn awyddus i'w gweld yn 2050. Caiff y strategaeth hon a'r amcanion hyn eu hystyried wrth lunio Amcanion Llesiant Cyngor Dinas Casnewydd ar gyfer mis Mawrth 2017 a Chynllun y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, Mawrth 2018.

Caiff y strategaeth hon ei diwygio'n rheolaidd er mwyn adlewyrchu cynnydd ac er mwyn ymateb i'r agenda Gymraeg genedlaethol. Megis dechrau y mae'r cyngor o ran rhoi Safonau'r Gymraeg ar waith a byddwn yn dysgu am hyrwyddo'r Gymraeg a beth sy'n gweithio wrth i ni fwrw ati. Bydd trefniadau priodol ar waith o ran llywodraethu a chynnwys y gymuned ar gyfer unrhyw newidiadau a wnawn i'r strategaeth.

Rydym wedi nodi 3 blaenoriaeth Gymraeg, a byddwn yn llunio nifer o Amcanion Cymraeg mewn perthynas â hwy. Mae cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg eisoes yn rhan o waith cydraddoldeb y cyngor, fel un o'r 9 Amcan Cydraddoldeb.

DRAFT

## Gweledigaeth ddrafft ar gyfer y Gymraeg yng Nghasnewydd

'Gall pobl Casnewydd ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob rhan o'u bywyd...'

## Targed 5 mlynedd arfaethedig ar gyfer cynyddu canran y siaradwyr Cymraeg

Ein targed yw:

I gynyddu'r niferoedd o ddisgyblion mewn addysg cyfrwng Cymraeg o 892 yn 2016/17, i 1,250 neu fwy yn 2022/23.

Mae hyn yn cynrychioli twf o 4.5% y boblogaeth oedran ysgol i 5%.

Seilir hyn ar lenwi  dosbarthiadau derbyn yr ysgolion gynradd cyfrwng Cymraeg i'w capasiti o 107 y flwyddyn, dros y 5 mlynedd nesaf gan ddechrau yn 2017/18.

Noder:

Bydd angen rhagor o waith yn y ddinas i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn unol â thargedau cenedlaethol. Mae'r gofyniad i bennu targed yn gosod her i Gasnewydd gan fod ffigurau'r Cyfrifiad o bosibl yn gorddatgan nifer y siaradwyr Cymraeg, ac at hynny, nid oes ffigurau cyfrifiad ar gael ar ddechrau a diwedd cyfnod y Strategaeth (2017-2022). Felly, rydym yn bwriadu pennu targed o ran y twf yn nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n dilyn addysg Gymraeg. Mae'r targed hwn yn fesuradwy ac yn gyraeddadwy. Yn ystod yr ymgynghoriad, mae'n bosibl y bydd yn rhaid i ni ystyried p'un a yw'r targed hwn yn ddigon heriol.

DRAFT

## Themâu ac Amcanion ar gyfer y Gymraeg

Rydym wedi nodi 3 Thema ddrafft a 10 Amcan drafft er mwyn cyflawni'r weledigaeth ar gyfer Casnewydd. Byddant yn ein helpu i gyrraedd y targed o ran twf y Gymraeg ac, yr un mor bwysig, yn diwallu'r angen i gynnig cyfleoedd i siarad a dysgu Cymraeg ym mhob rhan o fywyd yng Nghasnewydd. Gellir eu newid yn ystod y broses ymgynghori.

## Themâu ac Amcanion drafft y Strategaeth Iaith Gymraeg

1. Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
2. Sicrhau swyddi lleol yng Nghasnewydd, tai fforddiadwy a chynllunio'r gweithlu
3. Hyrwyddo'r Gymraeg ym mhob rhan o fywyd

## 1 Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg

1.1 Trosglwyddo iaith o fewn teuluoedd

1.2 Mynediad i addysg Gymraeg leol i bawb, gan feithrin y sgiliau dwyieithog gorau posibl

1.3 Prif-ffrydio'r Gymraeg mewn Addysg Bellach ac Uwch

1.4 Cyfleoedd dysgu Cymraeg i oedolion

## 2 Sicrhau swyddi lleol yng Nghasnewydd, tai fforddiadwy a chynllunio'r gweithlu

2.1 Cynllunio a pholisi iaith

2.2 Cymraeg yng ngweithlu'r cyngor

## 3 Hyrwyddo'r Gymraeg ym mhob rhan o fywyd

3.1 Sicrhau bod y Gymraeg yn elfen naturiol o fod yn ddinesydd yng Nghymru (normaleiddio)

3.2 Datblygu mwy o leoedd lle mae'r Gymraeg yn naturiol a lle y bo'n normal defnyddio'r Gymraeg

3.3 Hyrwyddo'r cyfleusterau technolegol a digidol sydd ar gael i siaradwyr Cymraeg

3.4 Hyrwyddo'r cyfryngau amrywiol a pherthnasol sydd ar gael yn Gymraeg ac sy'n defnyddio'r Gymraeg

DRAFT

## Yr laith Gymraeg

Mae'r Gymraeg yn un o drysorau Cymru. Mae'n rhan o'r hyn sy'n ein diffinio fel cenedl, ac mae'n gynyddol yn dod yn rhan annatod o'n bywydau beunyddiol. Yn ôl y Cyfrifiad diweddaraf yn 2011, roedd 562,000 o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Lansiodd Llywodraeth Cymru Strategaeth yn 2016 i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 (Miliwn o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050). Yn y Strategaeth hon, byddwn yn anelu at gefnogi Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer twf yn ogystal â phennu ein targed ein hunain ar gyfer siaradwyr Cymraeg a'n gweledigaeth ein hunain ar gyfer y Gymraeg yng Nghasnewydd.

## Faint o siaradwyr Cymraeg sydd yng Nghymru?

Mae tair ffynhonnell o ffigurau ar gyfer siaradwyr Cymraeg yng Nghymru:

- Mae Cyfrifiad 2011 i Gymru yn awgrymu y gall 19% o breswylwyr arferol yng Nghymru siarad Cymraeg (tua 562,000 o bobl.)
- Mae'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn amcangyfrif y gall tua 26 i 27 % (tua 810,500) o bobl tair blwydd oed neu'n hŷn siarad Cymraeg.
- Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn amcangyfrif y gall tua 23 i 24 % (tua 607,000) o bobl 16 oed neu'n hŷn siarad Cymraeg yng Nghymru. (Dogfen Ymgynghori Llywodraeth Cymru, tud 6.)

## Faint o siaradwyr Cymraeg sydd yng Nghasnewydd?

### Cyfrifiad 2011

Yn ôl Cyfrifiad 2011, mae tua 145,800 o bobl yn byw yng Nghasnewydd ac mae 13,002 ohonynt yn siaradwyr Cymraeg. Mae hynny'n golygu y gall 9.3% o'r boblogaeth yng Nghasnewydd siarad Cymraeg. Dyma'r drydedd ganran isaf o blith ardal unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru, ar ôl i Ferthyr Tudful a Blaenau Gwent, ac mae'n sylweddol is na chyfartaledd Cymru, sef 19%.

Ceir tystiolaeth i awgrymu bod data'r Cyfrifiad mewn gwirionedd yn goramcangyfrif nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghasnewydd. Mae'n bosibl bod rhieni wedi goramcangyfrif gallu eu plant i siarad Cymraeg. Cwblhaodd rhieni'r cyfrifiad gan nodi bod 42% o blant a phobl ifanc rhwng 11 ac 14 oed yn siarad Cymraeg yn 2011. Cafwyd ffigur o 46% yn 2001. Wrth olrhain y garfan honno o 2001 i 2011, mae'r ffigur yn gostwng o 46% o blant a phobl ifanc rhwng 10 ac 14 oed i 7.8% o bobl rhwng 20 a 24 oed yn siarad Cymraeg dros ddegawd yn ddiweddarach.

At hynny, mae ffigurau Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP) 2011 yn awgrymu mai tua 4% o'r 24,000 o ddisgyblion yng Nghasnewydd a wnaeth gais am addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn groes i'r ffigur o 34.8% o gyfanswm y plant rhwng 5 a 9 oed y mae cyfrifiad 2011 yn honni eu bod yn siarad Cymraeg o fewn yr awdurdod lleol.

DRAFT

**Siaradwyr Cymraeg yng Nghasnewydd yn ôl oedran. 2001 a 2011(Cyfrifiad)**

| Oedran | 2011% | 2001% |
|---|---|---|
| **3-4** | **14.0** | 9.2 |
| **5-9** | **34.8** | 36.3 |
| **10-14** | **42.0** | 46.1 |
| **15-19** | **23.0** | 21.4 |
| **20-24** | **7.8** | 3.8 |
| **25-29** | **4.9** | 3.4 |
| **30-34** | **3.3** | 2.8 |
| **35-39** | **3.1** | 2.6 |
| **40-44** | **2.6** | 2.7 |
| **45-49** | **2.4** | 2.8 |
| **50-54** | **2.4** | 2.7 |
| **55-59** | **1.9** | 2.6 |
| **60-64** | **1.8** | 2.1 |
| **65-69** | **1.7** | 2.9 |
| **70-74** | **1.4** | 2.3 |
| **75-79** | **2.0** | 2.6 |
| **80+** | **1.8** | 2.2 |
| **Pawb 3 oed a throsodd** | **9.3** | 10.0 |

*Ffynhonnell:* Cyfrifiad 2001, tabl a gomisiynwyd, cyfeirnod C0155

## Arolwg Blynyddol 2016 o'r Boblogaeth

Mae'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (2016) yn amcangyfrif bod 18.9% o'r boblogaeth yng Nghasnewydd yn siarad Cymraeg. Unwaith eto, mae hyn yn ystadegol is na chyfartaledd Cymru, sef 26.4%, ond yn uwch na'r data a ddarparwyd gan y cyfrifiad.

DRAFT

## Arolwg Cenedlaethol Cymru 2015

Gofynnodd Arolwg Cenedlaethol Cymru 2015 am allu pobl i siarad Cymraeg. Nododd 6% o'r boblogaeth a samplwyd y gallent siarad Cymraeg.

| Yn Gallu Siarad Cymraeg | Ddim yn Gallu Siarad Cymraeg | Ddim yn Gallu Siarad Cymraeg, ond rhywfaint o allu i siarad |
|---|---|---|
| 6% | 92% | 2% |

*Ffynhonell*: Arolwg Cenedlaethol Cymru ("Y Gallu i Siarad Cymraeg fesul Awdurdod Lleol" (data Casnewydd yn unig)

## Amcanestyniadau a Thargedau

O ystyried yr anawsterau a amlinellwyd gennym wrth nodi nifer gywir o siaradwyr Cymraeg o fewn yr awdurdod lleol, mae nodi amcanestyniadau a thargedau yn seiliedig ar ein sefyllfa bresennol yn anodd.

Dylai strategaeth hirdymor Casnewydd ar gyfer y Gymraeg ystyried y targed 'Miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050' a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Bydd y targed hwn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud mwy i hyrwyddo'r Gymraeg, yn arbennig yn Ne-ddwyrain Cymru, lle mae canran is o'r boblogaeth yn siaradwyr Cymraeg a lle ceir mwy o gyfleoedd ar gyfer twf.

Gan ddefnyddio Ffigurau Amcanestyniadau Poblogaeth Llywodraeth Cymru, rydym yn amcangyfrif y gallai poblogaeth Casnewydd gynyddu i 170,900 erbyn 2036 (2013, tud 3) ac os ceir twf cyson, ceir poblogaeth o 186,050 erbyn 2050. Os bydd cyfran y siaradwyr Cymraeg, fel y'i nodwyd gan Gyfrifiad 2011, yn parhau'n gyson, sef 9.3%, gallwn ddisgwyl y bydd 16,558 o Siaradwyr Cymraeg yn y ddinas erbyn 2050. Fodd bynnag, os defnyddiwn ddata Arolwg Cenedlaethol Cymru fel mesur mwy cywir, gallem ddisgwyl y bydd 11,163 neu 6% o siaradwyr Cymraeg yng Nghasnewydd erbyn 2050.

Mae Ystadegau Gwladol Cymru (2015) yn rhagamcanu y bydd poblogaeth Cymru wedi cynyddu i 3.28 miliwn erbyn 2036 a'i bod yn debygol o gynyddu y tu hwnt i hynny. Fel amcangyfrif, byddai 1 filiwn o Siaradwyr Cymraeg yn cyfateb i tua 30% o boblogaeth Cymru yn 2050. Er mwyn sicrhau bod 30% o boblogaeth Casnewydd yn siaradwyr Cymraeg yn 2050, dylem anelu at tua 55,815 o siaradwyr Cymraeg.

## Beth yw'r amcangyfrif o'r boblogaeth ar gyfer Casnewydd ar gyfer 2011 a 2050?

Mae colofn 2011 yn dangos poblogaeth bresennol Casnewydd a'r ffigurau ar gyfer siaradwyr Cymraeg yng Nghasnewydd yn seiliedig ar Arolwg Cenedlaethol Cymru a Chyfrifiad 2011. Mae'r colofnau o dan y penawdau 2036 a 2050 yn nodi amcangyfrifon ar gyfer y blynyddoedd hynny, yn seiliedig ar amcanestyniad Llywodraeth Cymru o'r twf yn y boblogaeth.

DRAFT

| | 2011 | 2036 | 2050 |
|---|---|---|---|
| **Amcanestyniad o boblogaeth Casnewydd** | 145,800 | 170,900 | 186,050 |
| **Siaradwyr Cymraeg yng Nghasnewydd yn seiliedig ar ffigurau Arolwg Cenedlaethol Cymru (6%)** | 8,748 | 10,254 | 11,163 |
| **Siaradwyr Cymraeg yng Nghasnewydd yn seiliedig ar ffigurau'r Cyfrifiad (9.3%)** | 13,002 | 15,210 | 16,558 |
| **Nifer targed y siaradwyr Cymraeg yng Nghasnewydd yn seiliedig ar Un Filiwn o Siaradwyr Cymraeg Llywodraeth Cymru erbyn 2050 (30%)** | 43,740 | 51,270 | 55,815 |

## Sut i fesur nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghasnewydd

Nid yw'n glir faint o siaradwyr Cymraeg sydd yng Nghasnewydd ar hyn o bryd. Nid yw'n glir faint o siaradwyr Cymraeg y dylem anelu ato, o ystyried nad yw Llywodraeth Cymru wedi pennu targedau cynyddol ar gyfer y twf yn nifer y siaradwyr Cymraeg i Gymru nac i Gasnewydd. Cymhlethdod arall yw'r ffaith mai dim ond unwaith bob 10 mlynedd y cynhelir y Cyfrifiad, sef yr unig ddull nad yw'n seiliedig ar samplu, ac na fydd felly yn cofnodi nifer y siaradwyr yn 2016 a 2021, sef cyfnod y Strategaeth hon.

Mae gennym wybodaeth gadarn am nifer y disgyblion sy'n dilyn addysg Gymraeg. O ystyried bod lefel y Gymraeg ymhlith oedolion yn gymharol isel, disgwyliwn weld twf o ran siaradwyr Cymraeg ymhlith plant a phobl ifanc, drwy'r system addysg.

### Amcanestyniadau o'r ffigurau ar gyfer disgyblion mewn addysg Gymraeg yng Nghasnewydd

| | 2016/17 | 17/18 | 18/19 | 19/20 | 20/21 | 21/22 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gymraeg Casnewydd | 295 | 290 | 288 | 284 | 284 | 282 |
| Ysgol Gymraeg Ifor Hael | 180 | 168 | 163 | 158 | 153 | 147 |
| Ysgol Gymraeg Bro Teyrnon | 120 | 146 | 164 | 163 | 174 | 181 |
| Cyfanswm ysgolion gynradd | 595 | 604 | 615 | 605 | 611 | 610 |
| Ysgol Gyfun Gwent Is Coed * | 63 | 135 | 210 | 303 | 396 | 463 |
| Ysgol Gyfun Gwynllyw | 234 | 217 | 179 | 149 | 92 | 50 |
| Cyfanswm ysgolion gyfun | 297 | 352 | 389 | 452 | 488 | 513 |
| Cyfansymiau Disgyblion | 892 | 956 | 1004 | 1057 | 1099 | 1123 |

Yn seiliedig ar ffigurau CYBLD Ionawr 2016

*Wedi eu newid er mwyn ystyried disgyblion a ddaw o Sir Fynwy

Nid yw pennu targed yn seiliedig ar blant a phobl ifanc mewn addysg Gymraeg yn golygu mai'r grŵp oedran hwnnw yn yr amgylchedd hwnnw fydd unig ffocws y Strategaeth. Mae'r

Strategaeth hon yn berthnasol i bawb, ac mae'n bwysig bod cymaint o bobl â phosibl yn gysylltiedig â'r broses o greu amgylchedd sy'n ystyriol o'r Gymraeg lle yr ystyrir mai'r Gymraeg yw iaith y dyfodol.

### Targed  niferoedd y disgyblion mewn addysg yng Nghasnewydd 2021-2022

| **Nifer y disgyblion** | **2016/17** | **Targed 2021/22** |
|---|---|---|
| **Ysgolion Gynradd Cyfrwng Cymraeg** | **595** | **737** |
| Pob Ysgol Gynradd | 13,101 | 13,734 |
| **% Ysgolion Gynradd Cyfrwng Cymraeg** | **4.5%** | **5.3%** |
| **Ysgolion Gyfun Cyfrwng Cymraeg** | **297** | **513** |
| Pob Ysgol Gyfun | 10,058 | 11,464 |
| **% Ysgolion Gyfun Cyfrwng Gymraeg** | **3%** | **4.5%** |
| **Ysgolion Gynradd a Gyfun Cyfrwng Cymraeg** | **892** | **1250** |
| Pob ysgol Gynradd a Gyfun | 23,159 | 25,198 |
| **% Ysgolion Gynradd a Gyfun Cyfrwng Cymraeg** | **3.9%** | **5.0%** |

## Targed Arfaethedig ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghasnewydd

Ein targed yw:

I gynyddu'r niferoedd o ddisgyblion mewn addysg cyfrwng Cymraeg o 892 yn 2016/17, i 1,250 neu fwy yn 2022/23.

Mae hyn yn cynrychioli twf o 4.5% y boblogaeth oedran ysgol i 5%.

Seilir hyn ar lenwi  dosbarthiadau derbyn yr ysgolion gynradd cyfrwng Cymraeg i'w capasiti o 107 y flwyddyn, dros y 5 mlynedd nesaf gan ddechrau yn 2017/18.

DRAFT

## Yr iaith Gymraeg yng nghymunedau Casnewydd

Mae'r wybodaeth isod yn cyfeirio at Gasnewydd ond daw gwybodaeth arall o waith ymchwil a straeon y tu allan i Gasnewydd, lle rydym yn gymharol sicr bod sefyllfa debyg yn bodoli.

Rydym yn defnyddio'r un tair thema a gynigir gennym ar gyfer yr amcanion Cymraeg.

1. Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg

- Trosglwyddo iaith o fewn teuluoedd
- Lleoliadau gofal plant, addysg Saesneg a Chymraeg
- Cymraeg mewn Addysg Bellach ac Uwch
- Dysgu Cymraeg i oedolion

2. Swyddi lleol yng Nghasnewydd, tai, polisi'r cyngor a chynllunio'r gweithlu

- Cynllunio a Pholisi Iaith
- Cymraeg o fewn gweithlu'r cyngor

3. Defnyddio'r Gymraeg ym mhob rhan o fywyd

- Y Gymraeg fel elfen naturiol o fod yn ddinesydd yng Nghymru (Normaleiddio)
- Ble mae'r Gymraeg yn naturiol a ble y mae'n normal i'w defnyddio?
- Cyfleusterau technolegol a digidol sydd ar gael i siaradwyr Cymraeg
- Cyfryngau amrywiol a pherthnasol sydd ar gael yn Gymraeg
- Defnyddio'r Gymraeg ledled Casnewydd

## 1 Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghasnewydd

Mae poblogaeth amrywiol a chynyddol yng Nghasnewydd a chanddynt gydberthnasau gwahanol iawn â'r Gymraeg, yn seiliedig ar eu hunaniaeth ddiwylliannol a'r cyfleoedd a gynigir iddynt drwy gydol eu bywyd. Mae pob person ifanc wedi dysgu'r Gymraeg yn yr ysgol, ond efallai na fyddant yn meddu ar y sgiliau i siarad yr iaith nawr: mae'n bosibl na fydd pobl hŷn wedi cael y cyfle i ddysgu'r Gymraeg o gwbl. Mae gan rai pobl deulu a ffrindiau sy'n siarad Cymraeg, ac yn teimlo cariad at yr iaith. Mae rhai yn siomedig nad ydynt wedi cael y cyfle eto i wneud hynny.

Mae sawl ffordd o gynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg:

- Trosglwyddo o rieni i blant
- Dysgu Cymraeg drwy addysg Gymraeg
- Dysgu Cymraeg drwy addysg Saesneg
- Oedolion yn dysgu Cymraeg
- Siaradwyr Cymraeg yn dewis defnyddio'r iaith yn rheolaidd
- Twf o ran nifer y cymunedau a'r sefyllfaoedd lle yr ystyrir bod siarad Cymraeg yn normal
- Siaradwyr Cymraeg yn symud i Gasnewydd

Mae sawl ffordd y gall nifer y siaradwyr Cymraeg ostwng yng Nghasnewydd:

- Pobl ddim yn siarad Cymraeg ac yn colli eu sgiliau
- Symud o'r ardal neu o Gymru
- Siaradwyr Cymraeg yn marw

## 1.1 **Trosglwyddo iaith o fewn teuluoedd**

Gellir cymryd yn ganiataol bod rhieni sy'n siarad Cymraeg oll yn trosglwyddo'r iaith i'w plant. Yn aml mae hyn yn wir, ond nid bob amser.

Yng Nghymru, pan fo'r ddau riant yn gallu siarad Cymraeg, caiff yr iaith ei throsglwyddo i'w plant ar gyfradd o 82%. Yng Nghasnewydd, 77% yw'r gyfradd honno. Mae hyn yn golygu mewn cartrefi â phlant 3 i 4 oed lle mae'r ddau riant yn gallu siarad Cymraeg, bod 77% o'r plant hefyd yn siarad Cymraeg. Yn 2001, 47% oedd y ffigur hwn, sy'n dangos cynnydd calonogol iawn. (tud15 Proffil Iaith Gymraeg Menter Iaith Casnewydd (MIC) 2016)

Mae hefyd yn werth nodi'r cynnydd mewn cartrefi lle mae un o'r ddau riant yn siarad Cymraeg yng Nghasnewydd - o 19% i 38% (tud. 15 Proffil Iaith Gymraeg MIC 2016)

Yn ôl Proffil Iaith Gymraeg MIC, mae'r maes hwn yn faes y gellid ei wella gyda chyfleoedd i'r Fenter, ynghyd â sefydliadau eraill sy'n darparu gwasanaethau yn lleol, gan gynnwys yr Urdd, Mudiad Meithrin, Dechrau'n Deg.

## 1.2 Lleoliadau gofal plant, addysg Saesneg a Chymraeg

Ysgrifennwyd Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Cyngor Dinas Casnewydd yn 2011 a fe'i ddiweddarwyd yn flynyddol. Cyflwynwyd Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-2020 ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ochr yn ochr â'r Strategaeth 5 Mlynedd yr Iaith Gymraeg.

Mae'r weledigaeth a osodir yn y Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-2020 fel y ganlyn:

Mae Cyngor Dinas Casnewydd, fel aelod o Gonsortia De-Ddwyrain Cymru yn ymwneud â datblygu safonau yr iaith Gymraeg mewn addysg i ddarparu gweithlu dwyieithog ar gyfer Cymru dwyieithog, yn unol a gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg mewn addysg. Gweithiwn gyda eraill yn y rhanbarth i gefnogi ysgolion a darparwyr addysg i blant a phobl ifanc o bob oedran, ymhlith y sectorau cyfrwng Cymraeg a Saesneg. Anelwn at gynyddu cynhwysedd â chynaliadwyedd y Gymraeg mewn addysg. Byddwn yn hybu defnydd y Gymraeg o fewn teuluoedd, cymunedau ac yn y gweithlu. Ceisiwn gynyddu'r galw, a darparu addysg Gymraeg lleol, hygyrch a cymunedol.

Mae'r pump awdurdod lleol, a'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg De Ddwyrain Cymru, yn gweithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth er mwyn cynllunio a chyflwyno addysg cyfrwng Cymraeg ar draws y rhanbarth.

Yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, bu twf cyson yn narpariaeth addysg Gymraeg y cyngor. Bellach mae gennym dair ysgol gynradd Gymraeg (3.5 ffrwd derbyn) ac agorwyd ein hysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg gyntaf, Ysgol Gyfun Gwent Is Coed, ym mis Medi 2016. Mae'r twf yn y niferoedd o blant sydd un mynychu addysg gyfrwng Cymraeg yn adlewyrchiad o dewisiadau'r rhieni.

Bydd angen i'r cyngor ystyried y twf yn y boblogaeth a cynllunio lefydd ysgol cynaliadwy. Mae Casnewydd yn cynllunio datblygiadau tai newydd gyda pump ysgol gynradd i'w hagor yn y datblygiadau tai hynny, yn y pum i ddeg mlynedd nesaf. Bydd y cyngor yn ystyried y

DRAFT

cydbwysedd o addysg gyfrwng Gymraeg a Saesneg ar gyfer y boblogaeth hynny, ac yn ystyried y rhagolygon a galw potensial am addysg gyfrwng Cymraeg.

Mae yna gyfle i weithio gyda awdurdodau eraill i gynnal Arolygon Blynyddol o Ofynion Rhieni ledled Gwent er mwyn hyrwyddo addysg Gymraeg a gwella'r gyfradd ymateb. Mae gan y Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-2020 darged i ddatblygu polisi ar gyfer unigolion sy'n dechrau addysg Gymraeg yn hwyr, a Chanolfan Drochi yng Nghasnewydd.

### 1.3 Cymraeg mewn Addysg Bellach ac Uwch

Mae Ysgol Gyfun Gwynllyw yn gweithio'n agos gydag ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg eraill i gynnig dewis eang o gyrsiau ôl-16. Y lefel drosglwyddo bresennol i bobl ifanc Casnewydd sydd yn Ysgol Gyfun Gwynllyw o flwyddyn 11 i flwyddyn 12 yw 70%. Mae Coleg Gwent hefyd yn bartner yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ac yn darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae addysg bellach ac uwch yn Gymraeg yn bwysig ynddi'i hun er mwyn rhoi dewis i fyfyrwyr a meithrin eu sgiliau mewn amgylchedd dwyieithog, ond mae hefyd yn bwysig er mwyn datblygu gweithlu dwyieithog a all ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg.

### 1.4 Dysgu Cymraeg i oedolion

Yn ôl ffigurau Coleg Gwent ar gyfer blwyddyn academaidd 2015-16, roedd 154 o ddysgwyr Cymraeg i Oedolion yn Ardal Casnewydd.

## 2 Swyddi lleol yng Nghasnewydd, tai, polisi'r cyngor a chynllunio'r gweithlu

Mae'r twf yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn y grwpiau oedran 20-40 oed yn galonogol (3.8% yn 2001 -8.7% yn 2011.) Gall adlewyrchu'r ffaith bod Casnewydd yn cynnal siaradwyr Cymraeg neu'n gyrchfan i siaradwyr Cymraeg oherwydd y cyfleoedd a gynigir gan y ddinas, yn yr un modd ag y mae Caerdydd yn denu siaradwyr Cymraeg.

Mewn ardaloedd eraill yng Nghymru, mae'r diffyg gwaith a chyfleoedd astudio yn golygu bod yn rhaid i siaradwyr Cymraeg symud o'r ardal. Mae tai fforddiadwy hefyd yn broblem mewn llawer o ardaloedd gwledig â chyfran uchel o siaradwyr Cymraeg yn y gymuned. Mae'r cyfleoedd hyn yn niferus yng Nghasnewydd, ac fel y cyfryw, nid yw'r rhain yn ffactor sy'n atal yr ardal rhag denu neu gadw siaradwyr Cymraeg.

Mae'n bwysig nodi bod Casnewydd yn denu rhai siaradwyr Cymraeg gan ei bod yng Nghymru a bod cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, yn arbennig ym maes addysg. Gall yr unigolion hyn aros yng Nghasnewydd neu symud i Gasnewydd, ond ni fyddent yn symud i Fryste neu Gaerfaddon.

Nid yw'r pwyslais ar dai fforddiadwy a chefnogi'r economi leol drwy brynu nwyddau a gwasanaethau lleol mor hanfodol i Gasnewydd yn ein Strategaeth 5 Mlynedd ag y mae i ardaloedd eraill yng Nghymru.

DRAFT

## 2.1 Cynllunio a Pholisi Iaith

Yn y Strategaeth hon, mae'n rhaid i ni gydnabod rôl hanesyddol y wladwriaeth dros y canrifoedd a eithriodd yr iaith o fywyd cyhoeddus ac addysg, ac a ddylanwadodd er gwaeth ar ddewisiadau iaith pobl. Mae'r sefyllfa yn wahanol iawn heddiw gyda dyletswyddau o dan Fesur y Gymraeg 2011 i hyrwyddo'r iaith a defnydd o'r iaith.

Mae'r Mesur a Safonau'r Gymraeg yn rhoi dyletswydd ar y cyngor nid yn unig i gynnig gwasanaethau yn benodol yn Gymraeg ond i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ledled Casnewydd. Rydym yn asesu effaith holl benderfyniadau'r cyngor ar y Gymraeg ac mae'n rhaid i holl bolisïau a gweithdrefnau'r cyngor ystyried y Gymraeg. Mae hyn hefyd yn dylanwadu ar bartneriaid a chontractwyr, gan fod yn rhaid i unrhyw nwyddau a gwasanaethau a ddarperir ar ein rhan fodloni gofynion Safonau'r Gymraeg. Bydd hyn yn effeithio ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn ogystal â chreu amgylchedd sy'n fwy ymwybodol o'r Gymraeg.

Yn ogystal â chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, mae'r Cyngor yn cyflwyno adroddiad ar Mwy Na Geiriau - Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Un o'r egwyddorion allweddol yw'r ddarpariaeth weithredol - rydym yn cynnig gwasanaeth yn Gymraeg ac nid oes yn rhaid i unrhyw un ofyn amdano.

Yng Nghasnewydd mae'r Fforwm Addysg Gymraeg wedi datblygu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg sydd yn ymdrin a'r Gymraeg ym mhob lleoliad addysgol, hyfforddiant a dysgu, rhwng 2 a 19 mlwydd oed. Fe'i llywodraethir gan Fforwm y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, sef fforwm o bartneriaid y Cyngor sydd yn actif mewn meysydd addysg ac hyfforddiant.

## 2.2 Cymraeg yng ngweithlu'r cyngor

Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn weithgar wrth hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a defnydd o'r Gymraeg o fewn y cyngor, er budd aelodau o staff yn ogystal â'n cwsmeriaid. Mae ein cynllun cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg yn canolbwyntio ar ddefnyddio'r iaith yn ogystal â chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Rydym yn cynnig hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a hyfforddiant sgiliau Cymraeg drwy Goleg Gwent.

Mae ein Cynllun Datblygu'r Gweithlu wedi nodi'r Gymraeg fel thema y mae penaethiaid gwasanaethau yn ei hystyried yn eu cynlluniau blynyddol ar gyfer datblygu'r gweithlu.

Mae'r Safonau yn ei gwneud yn ofynnol i ni asesu'r gofynion o ran y sgiliau ieithyddol sydd eu hangen ar gyfer pob swydd wag. Diben hyn yw sicrhau ein bod yn cyflogi pobl sy'n meddu ar y sgiliau Cymraeg sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau.

DRAFT

**Sgiliau Cymraeg Cyflogeion Cyngor Dinas Casnewydd ar 31/03/16**

| Sgil Cymraeg (CDC) | Cyfanswm | Dim | Dechreuwyr | Canolradd | Uwch |
|---|---|---|---|---|---|
| **Darllen** | 4,202 | 2,745 | 1,088 | 200 | 169 |
| **Siarad**<br>**Cyfradd ymateb**<br>**4,181/ 6,183=68%** | 4,181 | 2,540 | 1,274 | 200 | 167 |
| **Deall** | 4,185 | 2,564 | 1,230 | 217 | 174 |
| **Ysgrifennu** | 4,168 | 2,787 | 1,040 | 187 | 154 |

(Adroddiad Blynyddol Cyngor Dinas Casnewydd ar y Gymraeg 2015-2016)

Noder bod tua hanner yr aelodau o staff â sgiliau Cymraeg Uwch neu Ganolradd o fewn Cyngor Dinas Casnewydd yn gweithio mewn ysgolion.

Mae'r broses gwneud cais am swydd ar gael yn Gymraeg a gofynnir i gyflogeion nodi eu dewis iaith wrth ymdrin â'r cyngor fel cyflogwr mewn materion sy'n ymwneud â rheoli perfformiad, hyfforddiant, gohebiaeth ac ati. Rydym yn gobeithio y bydd nifer y cyflogeion sy'n derbyn y cynnig hwn yn gwella wrth i ddefnydd cyson y cyngor o'r Gymraeg gynyddu eu hyder.

Rydym yn monitro cydymffurfiad â'r Safonau ac o ran sicrhau amgylchedd sy'n gyffredinol yn ystyriol o'r Gymraeg drwy gynnal archwiliadau a phrofion cwsmer cudd. Rydym yn cynnwys staff ac yn gofyn am eu barn drwy'r Panel Cyflogeion.

# 3 Hyrwyddo'r Gymraeg ym mhob rhan o fywyd

## 3.1 Defnyddio'r Gymraeg fel dinesydd

Mae Safonau'r Gymraeg yn rhoi hawliau i bobl ddefnyddio'r Gymraeg mewn bywyd cyhoeddus. Y Cyngor yw'r corff cyhoeddus lleol cyntaf sy'n ddarostyngedig i'r Safonau. Bydd gan Addysg Uwch a Phellach, a Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan Safonau tebyg maes o law. Bydd hyn yn creu meysydd sylweddol o fewn bywyd cyhoeddus â darpariaeth Gymraeg gadarnhaol.

## 3.2 Defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol

Mae problemau o ran sicrhau bod gan ddysgwyr y cyfle i gymdeithasu yn Gymraeg a defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae Menter Iaith Casnewydd yn hyrwyddo amrywiol sesiynau anffurfiol, megis Caffi Clonc. Mae cyfleoedd eraill yn gyfyngedig oherwydd y llinell sylfaen isel o ran siaradwyr Cymraeg. Heb gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith a meithrin cysylltiadau â siaradwyr Cymraeg eraill, erys defnydd dysgwyr o'r Gymraeg yn gyfyngedig.

Mae Proffil Iaith Gymraeg Menter Iaith Casnewydd yn nodi cyfleoedd i'r Fenter a Choleg Gwent gydweithio i drefnu gweithgareddau mwy amrywiol, neu i weithio mewn partneriaeth ag eraill i gynnig cyfleoedd gwirfoddoli.

DRAFT

Mae gan y cyngor rywfaint o ddylanwad wrth greu amgylchedd dwyieithog yng Nghasnewydd ond nid oes ganddo lawer o ddylanwad wrth greu mannau lle y gall siaradwyr Cymraeg ddechrau eu sgyrsiau yn Gymraeg. Byddai'n rhaid i ni weithio mewn partneriaeth i gefnogi hyn.

### 3.3 Cyfleusterau technolegol a digidol sydd ar gael i siaradwyr Cymraeg

Wrth gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, mae'r cyngor yn sicrhau bod yr holl feddalwedd a chaledwedd a brynir ac a ddefnyddir gennym yn ddwyieithog ac yn caniatáu i ddefnyddwyr ddewis eu hiaith. Yn ein gwaith i wella hygyrchedd digidol, rydym yn sicrhau y cynigir dewis iaith.

### 3.4 Cyfryngau amrywiol a pherthnasol sydd ar gael yn Gymraeg

Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn cynyddu ein defnydd o lwyfannau amlgyfrwng ac rydym yn ymwybodol o'r angen i sicrhau presenoldeb cwbl ddwyieithog. Yn ogystal â chreu cynnwys dwyieithog, sef ymgyrchoedd a digwyddiadau marchnata yn bennaf, rydym hefyd yn rhoi cyhoeddusrwydd i ymgyrchoedd dwyieithog partneriaid lleol a chenedlaethol.

DRAFT

## Themâu ac Amcanion –meysydd gwaith adfaethedig

1 Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
2 Sicrhau swyddi lleol yng Nghasnewydd, tai fforddiadwy a chynllunio'r gweithlu
3 Hyrwyddo'r Gymraeg ym mhob rhan o fywyd

Dyma'r meysydd gwaith y mae'r cyngor yn eu hystyried o dan pob amcan.

| **1 Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg** | |
|---|---|
| **1.1 Trosglwyddo iaith o fewn teuluoedd** | Cynyddu cyfraddau trosglwyddo o fewn teuluoedd - Gwella hyder rhieni a gofalwyr, gyda mynediad i adnoddau a digwyddiadau cymunedol |
| **1.2 Mynediad i addysg Gymraeg leol i bawb, gan feithrin y sgiliau dwyieithog gorau posibl** | Cynyddu nifer y lleoedd gofal plant Cymraeg<br><br>Cynyddu capasiti ysgolion Cymraeg<br><br>Targedu grwpiau a gaiff eu tangynrychioli mewn addysg Gymraeg yng Nghasnewydd<br><br>Cynyddu nifer y disgyblion a gaiff eu hasesu yn Gymraeg fel iaith gyntaf ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 3<br><br>Gwasanaeth trochi i hwyrddyfodiaid<br><br>Sefydliadau addysgol yn paratoi pobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg yn hyderus mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol |
| **1.3 Prif-ffrydio'r Gymraeg mewn Addysg Bellach ac Uwch** | Sicrhau bod addysg Gymraeg yn ddewis naturiol i fyfyrwyr ôl-16 neu fyfyrwyr sy'n ymuno ag addysg bellach<br><br>Cefnogi cyrsiau galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg<br><br>Cefnogi ymdrechion i barhau i astudio yn Gymraeg<br><br>Cynyddu nifer yr athrawon, yr ymarferwyr blynyddoedd cynnar, y gweithwyr ieuenctid a'r gweithwyr gofal sy'n siarad Cymraeg<br><br>Cynyddu cyfleoedd i astudio a defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle |
| **1.4 Cyfleoedd Dysgu Cymraeg i Oedolion** | Hyrwyddo cyfleoedd dysgu Cymraeg i oedolion |

DRAFT

| 2 Sicrhau swyddi lleol yng Nghasnewydd, tai fforddiadwy a chynllunio'r gweithlu | |
|---|---|
| **2.1 Cynllunio a Pholisi Iaith** | Ystyried y Gymraeg ym maes datblygu economaidd - NCT 20, Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 wrth sefydlu cytrefi ac ysgolion newydd<br><br>Normaleiddio'r broses o gynllunio iaith wrth wneud penderfyniadau drwy Asesiadau Effaith o benderfyniadau'r cyngor a'i bartneriaid |
| **2.2 Cymraeg yng ngweithlu'r cyngor** | Prif-ffrydio prosesau cynllunio ieithyddol yn y gwaith o gynllunio'r gweithlu<br><br>Helpu siaradwyr a dysgwyr Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle<br><br>Cynyddu nifer y bobl sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg - gan ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau |

| 3 Hyrwyddo'r Gymraeg ym mhob rhan o fywyd | |
|---|---|
| **3.1 Sicrhau bod y Gymraeg yn elfen naturiol o fod yn ddinesydd yng Nghymru (Normaleiddio)** | Sicrhau ei bod yn normal i bobl ddefnyddio'r Gymraeg gyda sefydliadau<br><br>Cynyddu hyder y cyhoedd wrth ddefnyddio'r Gymraeg gyda sefydliadau cyhoeddus<br><br>Sicrhau bod y Gymraeg yn fwy amlwg yn yr amgylchedd clyweledol<br><br>Hyrwyddo defnydd y sector preifat a'r trydydd sector o'r Gymraeg, gan sicrhau ei bod yn rhan o frand Casnewydd |
| **3.2 Datblygu mwy o leoedd lle mae'r Gymraeg yn naturiol a lle y bo'n normal defnyddio'r Gymraeg** | Gweithgareddau Menter Iaith Casnewydd<br><br>Lleoliadau/mannau penodol Cymraeg Prif-ffrydio'r Gymraeg mewn cyfleoedd cymdeithasol i bobl ifanc<br><br>Annog cymunedau a chymdeithasau eraill i ddefnyddio'r Gymraeg |
| **3.2 Hyrwyddo'r cyfleusterau technolegol a digidol sydd ar gael i siaradwyr Cymraeg** | Dylanwadu ar ddarparwyr drwy ymrwymo i brynu systemau meddalwedd a chaledwedd ac ati lle y gellir dewis iaith a defnyddio'r Gymraeg<br><br>Hyrwyddo hygyrchedd a'r Gymraeg - meddalwedd cyfieithu, cyfleusterau darllen yn uchel, cyfieithu a chyfieithu ar y pryd<br>Defnyddir strategaeth ddigidol y Cyngor |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | fel y model cyflwyno ar gyfer sicrhau cynnydd |
| **3.4 Hyrwyddo'r cyfryngau amrywiol a pherthnasol sydd ar gael yn Gymraeg ac sy'n defnyddio'r Gymraeg** | Pobl Casnewydd<br>Darlledu<br>Fformatau eraill |

## Ymgysylltu

Mae'r cyngor yn lansio'r ymgynghoriad hwn ar 30 Medi 2016 a byddwn yn ymgynghori am gyfnod o 2 fis. Byddwn yn ceisio siarad gyda chymaint o bobl a grwpiau â phosibl am yr amcanion a'u cyfranogiad. Byddwn hefyd yn cyflwyno system ymgynghori ar-lein symlach. Mae'n bwysig ein bod yn dechrau ar y strategaeth hon fel y bwriadwn barhau - gan gynnwys cymaint o bobl â phosibl a sbectrwm mor eang â phosibl o bobl a sefydliadau yng Nghasnewydd. Ein nod yw defnyddio canlyniadau'r ymgynghoriad hwn hefyd i lywio'r datblygiadau ar Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Cyhoeddir fersiwn derfynol o'r Strategaeth hon erbyn mis Chwefror 2017.

## Llywodraethu

Mae rhai trefniadau llywodraethu penodol eisoes ar waith ar gyfer rhoi'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ar waith drwy Fforwm Addysg Gymraeg Casnewydd ac ar gyfer rhoi Safonau'r Gymraeg ar waith. Caiff trefniadau llywodraethu eu rhoi ar waith ar gyfer y Strategaeth hon am gyfnod cychwynnol. Byddwn yn adolygu'r trefniadau hyn er mwyn eu prif-ffrydio o fewn y trefniadau llywodraethu ar gyfer Amcanion Llesiant y Cyngor yn 2017, a Chynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn 2018.

## Gweithredu ac Adolygu

Bydd y Strategaeth derfynol yn cynnwys camau gweithredu, gyda therfynau amser a chyfrifoldebau wedi'u nodi. Bydd Cyngor Dinas Casnewydd yn gyfrifol am lawer o'r camau gweithredu hynny, ond bydd rhai ohonynt wedi'u neilltuo i sefydliadau eraill neu i ni fod yn gyfrifol amdanynt mewn partneriaeth ag eraill, ac fel y cyfryw, bydd yn rhaid cytuno arnynt gyda'r sefydliadau eraill hynny.

## Gwerthuso

Yn unol r Safonau'r laith Gymraeg 146, byddwn yn llunio Adroddiad Blynyddol bob blwyddyn. Bum mlynedd ar ôl cyhoeddi'r strategaeth, byddwn yn asesu i ba raddau yr ydym wedi dilyn y strategaeth honno ac wedi cyrraedd y targed a bennwyd ganddi. Bydd yn cynnwys y wybodaeth ganlynol, yn seiliedig ar y wybodaeth orau sydd ar gael:

(i) nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal, ac oedran y siaradwyr hynny;
(ii) rhestr o'r gweithgareddau a drefnwyd neu a ariannwyd gennych yn ystod y 5 mlynedd diwethaf er mwyn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.

DRAFT

## Dogfennau Cyfeirio

Ymgynghoriad ar strategaeth ddrafft Llywodraeth Cymru: miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 (Llywodraeth Cymru, 1 Awst 2016)


Consultation on a Welsh Government draft strategy: a million Welsh speakers by 2050 (Welsh Government 1 Aug 2016) [ONLINE] Available at: https://statswales.gov.wales/Catalogue/Welsh-Language/WelshSpeakers-by-LocalAuthority-Gender-DetailedAgeGroups-2011Census (Accessed 28/09/2016).

Menter Iaith Casnewydd (2016) Welsh Language Profile 2016

Newport City Council (2011) Newport City Council Welsh in Education Strategic Plan (Draft 2017-2020)

Newport City Council (2016) Welsh Language Annual Monitoring Report 2015-2016

NOMIS (2011) The Annual Population Survey Available at: https://www.nomisweb.co.uk/articles/676.aspx

Statistics for Wales (2013) Local Authority Population Projections for Wales (2011-based). Available at: http://gov.wales/docs/statistics/2013/130723-local-authority-population-projections-2011-based-en.pdf (Accessed 28/09/2016).

StatsWales (2015) The National Survey for Wales 2014-15 – Welsh Language. Available at: https://statswales.gov.wales/Catalogue/National-Survey-for-Wales/2014-15 (Accessed: 28/09/2016)

StatsWales (2012) Welsh speakers by local authority and broader age groups, 2001 and 2011 census. Available at: https://statswales.gov.wales/Catalogue/Welsh-Language/WelshSpeakers-by-LA-BroaderAge-2001And2011Census

StatsWales (2011) Welsh Speakers by local authority, gender and detailed age groups, 2011 Census https://statswales.gov.wales/Catalogue/Welsh-Language/WelshSpeakers-by-LocalAuthority-Gender-DetailedAgeGroups-2011Census (Accessed: 28/09/2016)

Welsh Government (2016) Pupil Level Annual School Census (PLASC)


DRAFT